LLYWODRAETH CYMRU

TÎM POLISI PORTHLADD

DEDDF HARBYRAU 1964 (WEDI'I DIWYGIO)

# GORCHYMYN ADOLYGU (CYFANSODDIAD) HARBWR SAUNDERSFOOT ARFAETHEDIG 2020

## DATGANIAD YN CEFNOGI CAIS Y GORCHYMYN GAN GOMISIYNWYR HARBWR SAUNDERSFOOT

Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Comisiwn Harbwr Saundersfoot
3. Harbwr Saundersfoot
4. Crynodeb o weithgarwch a datblygiadau'r Harbwr er 2011
5. Deddf Harbyrau 1964 a Deddf Cymru 2017
6. Angen a chyfiawnhad dros y GAH
7. Casgliad

**Atodiad**

Amlinelliad o ddatblygiadau arfaethedig i Harbwr Saundersfoot

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â chais Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot ("y Comisiynwyr") ar gyfer Gorchymyn Adolygu (Cyfansoddiad) Harbwr Saundersfoot arfaethedig 2020 ("y GAH"). Y Comisiynwyr yw'r awdurdod harbwr statudol ar gyfer Harbwr Saundersfoot ("yr Harbwr").

1.2 Ynghyd â'r cais, a anfonwyd mewn llythyr i Lywodraeth Cymru dyddiedig 18 Mehefin 2020 mae:

1.2.1 drafft o'r GAH arfaethedig; a'r

1.2.2 datganiad hwn.

1.3 Mae'r cais ar gyfer gorchymyn adolygu harbwr i'w gyflawni yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf Harbyrau 1964.

1.4 Byddai'r GAH yn cyflawni nifer o newidiadau i gyfansoddiad y Comisiynwyr ac yn moderneiddio'r ddeddfwriaeth harbwr statudol lleol cyfredol, a ystyrir yn ffafriol i weithredu, cynnal, rheoli a gwelliant effeithiol ac economaidd yr Harbwr, yn arbennig wrth gymryd i ystyriaeth y buddsoddiad sylweddol a'r rhaglen ddatblygu sydd ar y gweill.

1.5 Byddai'n galluogi'r Comisiynwyr i wneud cyfraniad pellach tuag at bentref a chymuned Saundersfoot fel yr esboniwyd yn y disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig y cyfeirir atynt yn 3 isod ac wedi'u cynnwys mewn manylder yn yr Atodiad i'r datganiad hwn.

## 2. COMISIYNWYR HARBWR SAUNDERSFOOT

2.1. Mae'r Harbwr yn borthladd ymddiriedolaeth sy'n eiddo i'r Ymddiriedolwyr ac yn cael ei reoli gan yr Ymddiriedolwyr, sy'n gorff wedi'i sefydlu a'i lywodraethu gan ei ddeddfwriaeth leol ei hun, a'r darn diweddaraf yw'r Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011 ("y Gorchymyn Grymuso 2011"). Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol am weinyddu, cynnal a gwella'r Harbwr.

2.2. Am ei fod yn Borthladd Ymddiriedolaeth caiff Comisiynwyr eu penodi o dan drefniadaeth wedi'u cynnwys mewn amrywiol ddeddfwriaeth yn unol â chanllawiau'r Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru. Does yna ddim cyfranddalwyr na pherchnogion.

2.3. Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau mae'r Comisiynwyr yn cydsynio â'r safonau a osodir allan yng nghanllawiau'r Llywodraeth ar gyfer llywodraethu porthladdoedd ymddiriedolaeth, sy'n delio ag atebolrwydd ac yn ceisio gweithredu mewn dull agored ac atebol ond heb gyfaddawdu cyfrinachedd masnachol na chyfrifoldeb cyfreithiol.

2.4. Mae'r Comisiynwyr wedi ymrwymo i gydymffurfio ag egwyddorion amrywiol godau ac adroddiadau sy'n ymwneud â llywodraethiant corfforaethol i'r graddau sy'n berthnasol i'w cyfansoddiad.

## 3. HARBWR SAUNDERSFOOT

3.1. Canfyddir dechreuadau'r Harbwr hwn yn Ne Sir Benfro yn y diwydiant glo gan iddo gael ei sefydlu'n wreiddiol yn 1834 i gefnogi allforio glo o'r meysydd glo lleol. Tra bo'r diwydiant hwnnw wedi diflannu beth amser nôl deil yr Harbwr i chwarae rhan bwysig ers tro yn yr economi lleol fel porthladd pysgota (yr ail mwyaf yng Nghymru ar hyn o

bryd o ran tunelledd helfeydd), ac yn harbwr hamddena a lleoliad canolog yn yr economi dwristaidd leol.

3.2. Mae Harbwr Saundersfoot yn harbwr sychu bychan wedi'i leoli yn Sir Benfro yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan gychod pleser. Mae'r Harbwr hefyd yn cefnogi fflyd o 8 o gychod pysgota masnachol ynghyd â nifer bychan o weithredwyr masnachol eraill sy'n cynnig profiadau twristaidd. Yn ychwanegol, mae'r Harbwr yn cyflenwi cynllun racio badau a 200 o angorfeydd hamdden. Mae lle ar gyfer storio hyd at 55 o fadau ar gael hefyd ynghyd â defnydd o raff godi badau 16T ar y safle. Hyd y cei yw 349m ac mae yna nifer o adeiladau yn yr harbwr sy'n cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr hamdden, twristiaeth forol a physgotwyr lleol. Defnyddir llefydd ac adeiladau eraill ar gyfer mentrau manwerthu ac mae'r harbwr hefyd yn neilltuo a chefnogi defnydd o'i lefydd a'i gyfleusterau ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau cymunedol ac achlysuron.

## 4. CRYNODEB O WEITHGAREDDAU A DATBLYGIADAU ER 2011

4.1. Mae'r Harbwr yn un o dros gant o borthladdoedd ymddiriedolaeth yn y DU sy'n rhannu'r ffaith gyffredin eu bod yn cael eu rhedeg fel mentrau masnachol gan gomisiynwyr/aelodau bwrdd wedi'u penodi a chanddynt ddyletswydd i ail-fuddsoddi pob gwarged er budd yr harbwr a'i randdeiliaid cymunedol - does yna ddim cyfranddalwyr na difidendau i'w talu.

4.2. Roedd pasio Gorchymyn Grymuso 2011, trwy gyfrwng pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru, yn egluro'r berchnogaeth tir ac yn diweddaru rhai agweddau o lywodraethiant yr harbwr. Sefydlodd hyn blatfform ar gyfer yr Harbwr i adeiladu ar ei statws o borthladd pysgota ac i ystyried yn fwy strategol sut i ddatblygu ei gyfleusterau morol. Yn benodol, roedd yna gyfle i benderfynu sut i hyrwyddo ei weithrediadau wrth ystyried ymwelwyr rhyngwladol, cenedlaethol a lleol ac adlewyrchu strategaethau morol, adnewyddu a thwristiaeth Llywodraeth Cymru.

4.3. Aeth y Comisiynwyr newydd a benodwyd wedi'r Gorchymyn Grymuso 2001 ati felly i drefnu adolygiad strategol manwl gyda chymorth ymgynghoriad manwl lleol. Cyhoeddwyd hwn yn 2012 fel y datganiad strategaeth "Hwylio Ymlaen" ac ynddo y datganiad genhadaeth graidd oedd:

4.3.1. I greu a chynnal 'Harbwr Diogel' wedi'i gydnabod yn genedlaethol ar gyfer ymwelwyr hwylio yn ogystal â hwylwyr lleol a fydd yn ganolfan rhagoriaeth yn nhermau rheolaeth, croeso a chyfathrebu rhanddeiliaid;

4.3.2. I annog twf trwy chwaraeon dŵr, cyfleusterau morol ar y safle, hyfforddiant a thwristiaeth gynaliadwy er lles y gymuned fusnes a'r gymuned gymdeithasol yn ehangach;

4.4. Nododd y Comisiynwyr y modd y byddai hyn yn cael ei gyflawni mewn cyfres o uchelgeision wedi'u cyfleu'n eglur megis:

4.4.1. I greu diwylliant o groeso er mwyn creu enw da am wasanaeth o gysondeb a chyfeillgarwch gan sefydlu Brand Harbwr Saundersfoot;

4.4.2. I beidio ag ofni newid ac i ymrwymo i greu busnes proffidiol a chynaliadwy ynghyd ag arferion masnachol modern ac atebolrwydd ariannol llwyr;

4.4.3. I wneud yr harbwr yn fenter ddichonadwy fel ffrwd refeniw ar ei phen ei hun ac i ddefnyddio holl elw gweithgareddau anforol fel Cronfa ddatblygu i hyrwyddo cyfleusterau'r harbwr;

4.4.4. I fod yn gystadleuol gyda harbyrau/marinfeydd eraill o ran darparu cynnyrch a phrofiad;

4.4.5. I greu uchelgais gydweithredol am lwyddiant gyda chymorth rhanddeiliaid busnes, cymunedol a harbwr gan sicrhau cydfuddiant i bawb;

4.4.6. I nodi'n eglur ein targed gynulleidfa o ddefnyddwyr ac addasu a chyfeirio ein marchnata i'r proffil demograffig priodol;

4.4.7. I gael ein gweld fel cyfathrebwyr da gyda'r trigolion a'r rhanddeiliaid cymunedol er mwyn annog 'Perchenogaeth' o'r Porthladd Ymddiriedolaeth gan ei gleientiaid a'i gefnogwyr;

4.4.8. I fod yn ochelgar, yn gyfrifol ac yn ymwybodol o arfer Llywodraethiant Corfforaethol da;

4.4.9. I ragori ar ddisgwyliadau ein cleientiaid bob amser ac ymhob cyfeiriad.

4.5. Datblygwyd cynllun gweithredu pum mlynedd yn seiliedig ar agendau cyffredin gyda phartneriaid tebygol a go iawn yn y sectorau preifat, cymunedol a chyhoeddus oedd yn galluogi trafodaethau pellach rhwng rhanddeiliaid a datblygu cydweithio gyda phartneriaid.

4.6. Lluniwyd cynllun i'w gyflwyno fesul camau ac wedi ei gostio a chafwyd cefnogaeth a chyllid i alluogi cychwyn y camau cyntaf.

4.7. Roedd angen caniatâd ffurfiol yr awdurdod cynllunio, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a hefyd mudiadau rheoleiddio a statudol eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ystadau'r Goron ar gyfer y mwyafrif o'r camau datblygu. Gwelir manylion y datblygiad gam wrth gam a'r amseriadau ynghlwm yn Atodiad 1.

## 5. Y DDEDDF HARBYRAU 1964 A DEDDF CYMRU 2017

5.1. Mae Adran 14 o'r Ddeddf Harbyrau 1964 ("y Ddeddf 1964") yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i draddodi gorchymyn o dan yr adran honno (adwaenir fel gorchymyn adolygu harbwr) mewn perthynas â harbwr sy'n cael ei wella, ei gynnal neu reoli gan awdurdod harbwr, wrth arfer a pherfformio pwerau a dyletswyddau statudol ar gyfer cyflawni'r holl neu rai o'r bwriadau a nodir yn Atodlen 2 o Ddeddf 1964. O ran porthladdoedd a harbyrau wedi'u lleoli yng Nghymru (ac eithrio porthladdoedd ymddiriedolaeth) mae'r pwerau wedi'i datganoli i Weinidogion Cymru.

5.2. Mae Adran 14(2) o Ddeddf 1964 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu cais ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru gan yr awdurdod sy'n ymwneud â gwella, cynnal neu reoli'r harbwr o dan sylw ac mae adran 14(2)(a) o Ddeddf 1964 yn ei gwneud yn ofynnol i i ddarparu cais ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru gan yr awdurdod sy'n ymwneud â'r harbwr o dan sylw ac mae adran 14(2)(b) yn nodi bod rhaid i Lywodraeth Cymru:

> "fodloni ei hun bod traddodi'r gorchymyn yn ddymunol er lles sicrhau gwelliannau, cynnal a chadw neu reolaeth yr harbwr mewn modd effeithlon ac economaidd neu i hwyluso cludiant effeithlon ac economaidd o nwyddau neu bobl ar draws y môr neu er lles y defnydd hamdden o longau hwylio."

5.3. Nid yw hwn yn gais am orchymyn adolygiad harbwr sydd, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, yn awdurdodi prosiect (oddi fewn i ystyr paragraff 1 o Atodlen 3 o Ddeddf 1964), felly nid oes angen rhoi rhybudd rhagblaen i Lywodraeth Cymru o dan baragraff 3(a) Atodlen 3 o Ddeddf 1964.

5.4. Mae'r cais am GAH o dan adran 14 o'r Ddeddf yn cydymffurfio â'r amodau a osodir allan yn yr adran honno. Yn benodol, mae'r cais yn cydymffurfio â gofynion:

5.4.1. adran 14(1) o Ddeddf 1964 am ei fod wedi'i wneud mewn cysylltiad â harbwr sy'n cael ei wella, ei gynnal neu reoli gan awdurdod harbwr wrth arfer a pherfformio pwerau a dyletswyddau statudol ar gyfer cyflawni yr holl neu rai o'r bwriadau a nodir yn Atodlen 2 o Ddeddf 1962:

5.4.2. adran 14(2) o Ddeddf 1964 am fod:

i. y cais wedi'i gyflwyno fel cais ysgrifenedig gan awdurdod harbwr sy'n ymwneud â gwella, cynnal neu reoli'r harbwr; a

ii. mae cyflwyno'r GAH yn ddymunol er lles sicrhau gwella, cynnal neu reoli'r harbwr mewn modd effeithlon ac economaidd.

5.5. Mae Atodlen 2 o Ddeddf 1964 yn nodi y gall gorchymyn adolygu harbwr gynnwys darpariaeth ar gyfer:

5.5.1. aildrefnu awdurdod yr harbwr fel bo'r harbwr ar ei ennill o ran gwella, cynnal neu reoli neu newid y cyfansoddiad (paragraff 1 Atodlen 2);

5.5.2. rheoleiddio trefniadaeth yr awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau (paragraff 2 o Atodlen 2);

5.5.3. amrywio neu ddiddymu dyletswyddau neu bwerau a osodwyd neu rhoddwyd ar yr awdurdod a'r rheiny yn ddyletswyddau neu bwerau a osodwyd neu rhoddwyd at ddibenion gwella, cynnal neu reoli'r harbwr (paragraff 3 o Atodlen 2);

5.5.4. gosod neu roddi ar yr awdurdod, at y dibenion a gyfeirir atynt uchod, ddyletswyddau neu bwerau, naill ai'n ychwanegol neu yn lle dyletswyddau neu bwerau a osodwyd neu rhoddwyd fel y nodir uchod:

5.5.5. newid terfynau'r awdurdodaeth a roddir i'r awdurdod (paragraff 6 o Atodlen 2);

5.5.6. diogelu lles swyddogion a gweision yr awdurdod a grymuso'r awdurdod i ddarparu neu sicrhau darpariaeth o bensiynau, arian rhodd a buddiannau cyffelyb eraill er mwyn neu ar gyfer eu swyddogion a'u gweision.

## 6. ANGEN A CHYFIAWNHAD DROS GAH

### 6.1. **Cyffredinol**

6.1.1. Byddai'r GAH arfaethedig yn moderneiddio cyfansoddiad y Comisiynydd sy'n cael ei ystyried yn chwannog i weithrediad effeithlon ac economaidd, cynnal, rheoli a gwella'r Harbwr.

6.1.2. Rheolir yr Harbwr gan y Comisiynwyr er buddiant holl adrannau cymuned yr Harbwr ("buddiolwyr") gan gynnwys:

i. defnyddwyr yr harbwr (perchnogion cargo, teithwyr gweithredwyr llongau ac ati) ac eraill sy'n derbyn buddiant uniongyrchol o'r Harbwr (cyflogeion, rheiny sydd â diddordeb masnachol uniongyrchol yng ngweithrediad yr harbwr megis masnachwyr a'i cyflogeion); a

ii rheiny sydd â diddordeb anuniongyrchol yng ngweithrediad effeithlon ac atebol yr harbwr (gan gynnwys yr awdurdod lleol Cyngor Sir Penfro) a'r gymuned ehangach, llywodraeth, yr economi ranbarthol, cadwraeth ( yn cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) a thrafnidiaeth.

6.1.3 Mewn cydweithrediad â'r llywodraeth, awdurdod lleol ac eraill, mae'r harbwr wedi gosod ar waith ddatblygiad sylweddol o ddiddordeb lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

6.1.4 Mae nifer o newidiadau yn yr arfaeth i'r Gorchymyn Grymuso 2011 er mwyn sicrhau y bydd y Comisiynwyr yn:

i. gallu cydymffurfio â'i ddyletswydd i fwyhau'r buddiannau fydd ar gael i'r holl fuddianwyr (cyfredol, tebygol ac yn y dyfodol); ac

ii. yn gweithredu o fewn fframwaith agored ac atebol.

iii. cydymffurfio â meincnodau rhagoriaeth ar gyfer yr holl borthladdoedd ymddiriedolaeth; a

iv. chael yr arbenigedd masnachol a mynediad i gyllid i weithredu yn effeithlon yr hyn a fydd yn fusnes gwerth miliynau o bunnau.

6.1.5 Gosodir allan isod esboniad am yr angen am bob erthygl sylweddol o'r GAH.

## 6.2. Erthygl 4 o'r GAH – Y Comisiynwyr

Mae'r erthygl hon yn gwaredu'r nifer penodol o Gomisiynwyr sef wyth ar hyn o bryd. Dymuniad y Comisiynwyr yw sicrhau'r gallu i benodi cynifer o Gomisiynwyr ychwanegol sydd ag arbenigedd perthnasol heb gyfyngiad er mwyn hyrwyddo sail sgiliau a swyddogaeth effeithlon y Comisiynwyr. Bydd hyn yn adlewyrchu egwyddorion effeithiolrwydd y bwrdd o'r Cyfarwyddyd Llywodraethiant Da Porthladdoedd ("Cyfarwyddyd") sy'n nodi'r angen i fyrddau fod o faint digonol i gyfateb i anghenion y busnes.

## 6.3. Erthygl 4 o'r GAH – Cyfansoddiad y Comisiynwyr

6.3.1. Mae'r erthygl hon yn gosod allan cyfansoddiad y Comisiynwyr yn y dyfodol gan nodi na fydd llai nag wyth a dim mwy na deuddeg o Gomisiynwyr. Bydd y Comisiynwyr yn cynnwys swyddog prif weithredwr ynghyd ag (pe bai'r Comisiynwyr yn penderfynu) un swyddog gweithredol arall (a fydd yn dal y swydd cyhyd ag y byddant yn cael eu cyflogi fel swyddogion gweithredol), dau berson y cred y Comisiynwyr fod ganddynt wybodaeth arbenigol neu brofiad o swyddogaeth yr Harbwr yn y gymuned leol a'r economi lleol, a pha bersonau bynnag sydd â'r sgiliau a'r galluoedd priodol i gyflawni swyddogaeth y Comisiynydd.

6.3.2. Mae erthyglau 4(1)(b) a 4(c) yn gosod allan y broses o benodi Comisiynwyr gan gynnwys creu pwyllgor enwebu i gyflawni'r broses o benodi Comisiynwyr. Bydd y pwyllgor enwebu yn cynnwys aelod annibynnol, ac ar gyfer y rhai hynny y bernir bod ganddynt wybodaeth arbenigol neu brofiad o swyddogaeth yr harbwr yn y gymuned leol a'r economi lleol, bydd aelod o naill ai Cyngor Sir Penfro neu Gyngor Cymuned Saundersfoot yn bresennol.

6.3.3. Mae'r erthygl hon yn adlewyrchu effeithlonrwydd y bwrdd/egwyddorion aelodaeth y bwrdd yn y Cyfarwyddyd gan nodi'r angen i sicrhau'r sgiliau a'r profiad priodol, annibyniaeth a gwybodaeth i alluogi cyflawni effeithiol o ddyletswyddau a chyfrifoldebau, ac ar gyfer penodi mewn modd ffurfiol, trylwyr a thryloyw.

6.4. **Erthygl 5 o'r GAH – Panel Penodi**

Mae'r erthygl hon yn gwaredu'r panel penodi gan osod yn ei le y pwyllgor enwebu. Mae hyn eto yn unol â Chyfarwyddyd cyfredol ar gyfer porthladdoedd ymddiriedolaeth.

6.5. **Erthygl 6 o'r GAH – Penodi Comisiynwyr a chyfnod mewn swydd**

Mae'r erthygl hon yn gwaredu trefniadau a ddisodlwyd, gan dreigl amser, gan ddarpariaeth gysylltiedig yn ymwneud â phenodi a chyfnod mewn swydd Comisiynwyr yn atodlen 2 o Orchymyn Grymuso 2011.

6.6 **Erthygl 7 o'r GAH – Darpariaeth drosiannol**

Mae'r erthygl hon yn gwaredu trefniadau nad ydynt bellach yn berthnasol oherwydd treigl amser.

6.7. **Erthygl 8 o'r GAH – Cyfnod mewn swydd y Comisiynwyr dilynol**

6.7.1 Mae erthygl 8(1)(a) yn darparu ar gyfer Comisiynwyr sy'n swyddogion gweithredol i ddal swyddi dros gyfnod eu cyflogaeth fel swyddogion gweithredol, a all fod am fwy neu lai na thair blynedd.

6.7.2 Mae erthygl 8(1)(b) yn gwaredu trefniadau nad ydynt bellach yn berthnasol oherwydd treigl amser.

6.7.3 Mae erthygl 8(1)(c) yn cyfeirio at drefniadaeth newydd yn ymwneud ag ailbenodi Comisiynwyr fel y cyfeirir yn fanylach ym mharagraff 6.15 isod.

6.8 **Erthygl 9 o'r GAH – Swyddi gwag achlysurol**

Mae'r erthygl hon yn gosod allan y drefniadaeth ar gyfer penodi i swyddi gwag achlysurol. Yn amodol ar fod yna o leiaf wyth comisiynydd gellir gadael swydd wag achlysurol heb ei llenwi. Mae'r comisiynwyr yn dymuno cael disgresiwn p'un ai i lenwi swydd wag achlysurol neu beidio, trwy gymryd i ystyriaeth ffurfiad a sail sgiliau'r Comisiynwyr ar yr adeg berthnasol. Bydd Comisiynydd a benodir i lenwi swydd wag achlysurol yn dal swydd am dair blynedd o ddyddiad y penodiad, yn hytrach na gweddill tymor y swydd a adawyd yn wag. Byddai'r Comisiynwyr o'r farn y byddai hyn yn weinyddol symlach; yn ychwanegol, mae'n bosib na fydd swydd wag achlysurol yn cael ei llenwi ar unwaith.

6.9 **Erthygl 10 o'r GAH – Pwerau cyffredinol**

Mae'r erthygl hon yn cynnwys pwerau cyffredinol, mwy penodol, pellach, yn adlewyrchu datblygiad masnachol yr Harbwr, ac yn gyson â safonau llywodraethiant da porthladdoedd ymddiriedolaeth a thriniaeth o bwerau cyffredinol porthladdoedd ymddiriedolaeth, mewn gorchmynion adolygu diweddar ar gyfer porthladdoedd ymddiriedolaeth eraill fel sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau 2002.

6.10 **Erthygl 11 o'r GAH – Is-ddeddfau'r harbwr**

6.10.1 Mae erthygl 11(1)(a) nawr yn caniatáu'r Comisiynwyr i reoleiddio gweithgareddau'r llongau sy'n galw heibio'r Harbwr ac sydd, er enghraifft, yn angori/cyrraedd y traeth er mwyn gwaredu gwastraff.

6.10.2 Mae erthygl 11(1)(b) nawr yn caniatáu'r Comisiynwyr i reoleiddio neu wahardd pysgota oddi ar longau sydd wedi angori yn yr Harbwr.

6.10.3 Chwenychir 5.10.1 a 5.10.2 er mwyn gwella rheolaeth a rheoleiddio'r modd y defnyddir yr Harbwr yn seiliedig ar brofiad gweithredu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diweddar.

6.11 **Erthygl 12 o'r GAH – Pwerau Benthyg**

Mae'r erthygl hon yn cynyddu'r terfyn ar fenthyca gan y Comisiynwyr o £5,000,000 i £10,000,000. Mae pwerau benthyg presennol y Comisiynwyr wedi'u seilio ar ofynion ymddangosiadol gan y rheiny oedd yn ymwneud â rhedeg yr Harbwr wrth baratoi'r Gorchymyn Grymuso 2011. Ers yr amser hynny penodwyd Comisiynwyr newydd gyda sgiliau gwahanol a golwg wahanol i eiddo eu rhagflaenwyr ynghylch gobeithion dyfodol yr Harbwr, sefydlwyd perthynas waith agosach gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro a chrëwyd strategaeth tymor hir i'r Harbwr. Mae profiad ac uchelgais y Comisiynwyr wedi newid ac un o'r prif resymau dros y GAH yw adlewyrchu'r symudiad i ffwrdd o'r harbwr bychan, taleithiol i borthladd ymddiriedolaeth sy'n edrych allan, yn gynaliadwy ac yn ffynnu, yn chwarae ei ran yn yr economi ranbarthol ac yn wir genedlaethol; porthladd ymddiriedolaeth yn gwneud y defnydd gorau o'i asedau ac yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, partneriaid cymunedol a masnachol i wireddu'r strategaeth twf. Rhaid wrth gyllideb ddigonol, ddiogel, dros dymor hir ac nid yw'r terfyn benthyca presennol yn ddigonol i roi'r hyblygrwydd angenrheidiol i ddelio â rheolaeth effeithlon o fuddsoddiadau ar raddfa eang er mwyn dyfodol yr Harbwr. Mae'r rhaglen ddatblygu £10,000,000+ bresennol, er wedi'i chyllido yn sylweddol gan grantiau a benthyciadau cynorthwyedig, eisoes wedi nodi sefyllfaoedd pryd, am gyfnod o leiaf, mae'r gallu i sicrhau benthyca masnachol yn tynnu'n groes i'r terfynau presennol. Mae arfer da a chyfarwyddyd yn awgrymu bod sicrwydd dyfodol-ddigonol am y 10 - 20 mlynedd nesaf yn gofyn am gyllid digonol, am bris cystadleuol, a diogel. Mae'r cynnydd arfaethedig yn y terfyn benthyca cyfredol, pan osodir yn erbyn gwerthoedd tebygol y fantolen, yn cynrychioli lefel gyfrifol o eriad masnachol.

6.12 **Erthygl 13 o'r GAH – Benthyca dros dro**

Mae'r erthygl hon yn cynyddu'r terfyn ar fenthyca dros dro (gorddrafft) gan y Comisiynwyr o £100,000 i £2,000,000, am y rhesymau a osodir allan ym mharagraff 6.11.

6.13 **Erthygl 14 o'r GAH – Addasu terfynau benthyca**

Mae'r erthygl hon yn darparu ar gyfer unrhyw addasiad i derfynau benthyca i'w wneud ar bob pen-blwydd y dyddiad y daeth y GAH i rym. Bydd hyn yn gwaredu mater terfynau presennol, yn lleihau'n raddol effeithiolrwydd cymharol dros amser ac yn galw am ddiweddariad ffurfiol costus ac ysbeidiol.

6.14 **Erthygl 15 o'r GAH – Pwyllgor cynghori**

6.5.1. Mae erthygl 15(1)(a) yn gosod allan y drefniadaeth i sefydlu'r pwyllgor cynghori, yn adlewyrchu symudiad yn unol ag arfer gorau a Chyfarwyddyd gan benodiadau bwrdd enwebu a chynrychioliadol byrddau porthladdoedd ymddiriedolaeth gyda chefnogaeth pwyllgorau cynghori priodol yn adlewyrchu cwmpas y rhanddeiliaid a diddordebau ar unrhyw un adeg. Bwriedir i'r pwyllgor cynghori gael ei sefydlu gan y Comisiynwyr yn dilyn ymgynghoriad gyda Chyngor Sir Penfro, Cyngor Cymuned Saundersfoot, y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac eraill, y cred y Comisiynwyr fydd yn gynrychioliadol o ddiddordebau pysgota a badau lleol, diddordebau masnachol a phersonau gyda diddordeb yn yr Harbwr am ba bynnag reswm arall. Mae ymwneud rhanddeiliaid yn angenrheidiol, ac mae'r Comisiynwyr yn cydnabod bod swyddogaeth pwyllgor cynghori o gymorth o ystyried yr amrediad eang o ddiddordebau hamdden, amgylcheddol a masnachol oddi fewn i'r Harbwr. Ond ystyrir y darpariaethau yn y Gorchymyn Grymuso 2011 yn rhy ragnodol heb adlewyrchu cyfansoddiad presennol y pwyllgor cynghori na chwaith anghenion y Comisiynwyr. Mae'r Cyfarwyddyd yn nodi disgwyliadau ymgynghoriad ffurfiol gyda rhanddeiliaid ynghylch penderfyniadau o bwys ac yn cydnabod y buddiant o ffurfio grwpiau rhanddeiliaid ffurfiol. Ond nid yw'r Cyfarwyddyd yn argymell y dylai grwpiau diddordeb gael yr hawl i benodi cynrychiolwyr ac yn wir mae cyfarwyddyd yn y gorffennol wedi argymell lleihau penodiadau wrth gefn oddi ar borthladdoedd ymddiriedolaeth, ac mae'r mwyafrif erbyn hyn wedi cynnwys darpariaeth o'r fath yn eu darpariaeth statudol. Mae'r un egwyddor yn berthnasol i drefniadaeth y Pwyllgor Cynghori hwn.

6.15 **Erthygl 16 o'r GAH – Ailbenodi Comisiynwyr**

Mae'r erthygl hon yn caniatáu i Gomisiynwyr wasanaethu pedwerydd tymor tair blynedd yn olynol, os penderfynir hynny gan gynnig gerbron y Comisiynwyr. Mae'r Cyfarwyddyd yn argymell Comisiynwyr i ddal swydd am hyd at dri thymor olynol. Ond mae'r Cyfarwyddyd hefyd yn nodi mai'r uchafswm tymor ddylai fod i gadeirydd bwrdd porthladd ymddiriedaeth yw 12 mlynedd - byddai pedwerydd tymor eithriadol felly yn gydnaws â'r mwyafswm tymor hwn o 12 mlynedd. Y rhesymeg dros ymestyn y tymor yw sicrhau parhad profiad, gwybodaeth ac arbenigedd y Comisiynwyr yn ystod datblygiad masnachol yr Harbwr sydd ar hyn o bryd oddeutu hanner ffordd trwy'r camau sydd wedi'u cynllunio, ac sydd angen ei fonitro'n ddigonol a'i reoli i gyflawni disgwyliadau'r Comisiynwyr a'r rhanddeiliaid.

6.16 **Erthygl 17 o'r GAR – Ailbenodi cadeirydd**

Mae'r erthygl yn caniatáu ailbenodi cadeirydd y Comisiynwyr am bedwerydd tymor o dair blynedd yn olynol am y rhesymau a amlinellwyd uchod.

6.17 **Erthygl 18 o'r GAR - Cydnabyddiaeth i'r Comisiynwyr a'r Cadeirydd**

6.17.1 Mae erthygl 18(1)(a) yn caniatáu taliad o gydnabyddiaeth resymol i Gomisiynwyr. Ar hyn o bryd caniateir taliad dim ond i gadeirydd y Comisiynwyr.

Mae'n arferol i'r porthladdoedd ymddiriedolaeth mwyaf dalu aelodau'r bwrdd ar hyd llinellau "cyfradd y farchnad" i gyfarwyddwyr anweithredol. O'r herwydd argymhellir y dylid rhoi cydnabyddiaeth i Gomisiynwyr yn unol â'r hyn a benderfynir gan bwyllgor cydnabyddiaeth wedi'i ffurfio'n briodol, yn unol ag arfer gorau ac yn adlewyrchu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Comisiynwyr. Byddai hyn o gymorth i sicrhau ymrwymiad unigolion allweddol a chynorthwyo Comisiynwyr i gyflawni cydbwysedd effeithiol o sgiliau i gyfateb i anghenion strategol a gweithredol yr Harbwr.

6.17.2 Mae erthygl 18(2)(a) yn gosod allan y broses i benodi'r pwyllgor cydnabyddiaeth.

## 7. CASGLIAD

7.1. Yn ychwanegol i ddarpariaethau penodol Atodlen 2 Deddf 1964 Act, mae paragraff 17 o Atodlen 2 yn darparu ar gyfer gorchymyn adolygu harbwr i gynnwys darpariaeth ar gyfer:

> "Unrhyw fater, er nad oddi fewn yr un o'r paragraffau blaenorol, a ymddengys i'r Gweinidog priodol yn un y byddai ei gyflawni yn arwain at weithredu effeithlon o'r harbwr"

7.2. Am y rhesymau a nodir uchod, ystyrir cyhyd nad oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gynnwys yn y GAH yn rhan benodol oddi fewn unrhyw baragraff arall o Atodlen 2, byddai darpariaeth y GAH yn fodd o sicrhau gweithredu effeithlon o'r Harbwr ac felly oddi fewn cwmpawd Deddf 1964 iddynt gael eu cynnwys yn y GAH.

Dyddiad 19 Mehefin 2020

ATODIAD A

AMLINELLIAD O'R CYNIGION DATBLYGU AR GYFER HARBWR SAUNDERSFOOT A'U CYNNYDD

Yn dilyn Gorchymyn Grymuso 2011 penodwyd grŵp newydd o Gomisiynwyr, trwy drefniadaeth Llywodraeth Cymru, i'r harbwr hamdden a physgota deniadol bychan hwn - ond fel y sylweddolodd y Comisiynwyr yn fuan roedd yn fusnes oedd wedi ffosileiddio ac yn hunan-ganolog gan gymryd y rhan fwyaf o'i refeniw annigonol o'r meysydd parcio.

Rhyw naw mlynedd yn ddiweddarach mae'r Harbwr yn wahanol iawn – ddim mwyach dim ond yn faes parcio ond yn harbwr gweithredol prysur, yn guriad calon economi twristaidd lleol ac ar hanner gwario buddsoddiad £10m + i ailwampio'r harbwr

Mae hyn yn cynnwys ehangu'r gwasanaeth badau, datrys problemau'r llanw trwy adeiladu llithrfa newydd i alluogi lansio gwaeth beth yw cyflwr y llanw, gosod mwy o angorfeydd a phontynau yn yr harbwr allanol a chynllun racio badau sych ar y traeth. Mae'r datblygiadau hyn yn llwyr gefnogi bwriad Croeso Cymru i gynyddu'r defnydd o'n dyfroedd arfordirol at bwrpas hamdden.

Bydd datblygiadau eiddo'r Harbwr yn darparu llety dros nos i dwristiaid gweithgareddau, yn dehongli treftadaeth leol, yn creu llefydd cymunedol a manwerthu pob tywydd, a thrwy osod gorchudd dros y llifddor, eisoes wedi darparu ardal achlysuron a fydd, fel rhan o'r cam nesaf, yn defnyddio cefnlen arloesol atgynhyrchiad o "llong hwyliau".

Bydd defnyddwyr masnachol yn elwa o'r pontŵn newydd yn yr harbwr mewnol yn caniatáu mynediad diogelach i ddefnyddwyr y badau pleser lleol a'r ffenestr weithredu ehangach.

Sut gafodd hyn ei gyflawni? Wel, roedd nifer o elfennau ynghlwm, llawer yn berthnasol i unrhyw fusnes er bod y gymysgfa a'r dwyster wrth reswm yn wahanol.

Y cyntaf oedd hunan-ddadansoddi - cydnabod yn agored bod y busnes yn tan-berfformio, yn arnofio heb fawr o synnwyr cyfeiriad ac unrhyw arlliw o enw da oedd ganddo yn dirywio.

Roedd adnabyddiaeth gynnar o weledigaeth yn hanfodol i greu adolygiad strategol manwl ac o hynny gwelodd y comisiynwyr ddyfodol oedd yn cynnwys ffocws, eglurder pwrpas ac unoliaeth ymrwymiad i gyflawni. Penodwyd rheolwyr a staff brwdfrydig a medrus wedyn i gyflawni hyn.

Fel porthladd ymddiriedolaeth roedd yn bwysig bod yr Harbwr yn llwyr ymwneud â'r holl rhanddeiliaid yn cynnwys y sector gyhoeddus (Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro) i ymochri â'u polisïau, ac yn lleol yn ymgymryd ag ymgynghoriad agored a manwl gyda defnyddwyr harbwr, busnesau lleol a'r gymuned.

Mae buddsoddiad o dros £10m, hyd yn oed dros ychydig flynyddoedd, y tu hwnt i gapasiti busnes cymharol fychan fel Harbwr Saundersfoot. Ond bydd effaith economaidd y datblygiadau hyn i'w weld ymhell y tu hwnt i'r sefydliad ei hun, ac mae achos wedi'i wneud a chefnogaeth wedi'i dderbyn o gronfeydd Ewropeaidd a'r sector gyhoeddus i ychwanegu at gyllid a benthyciadau'r Harbwr ei hun. Enghraifft lwyddiannus go iawn o'r sector breifat a chyhoeddus yn cydweithio'n glos.

Roedd ymwneud rheoleiddio hefyd yn allweddol yn arbennig gan fod yr Harbwr mewn Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) a hefyd o fewn y Parc Cenedlaethol ac wrth gwrs yn cydymffurfio ag archwilio perthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ar ôl sefydlu'r weledigaeth a chyfeiriad y daith roedd yn bwysig cydlynu'r adnoddau a'r galluoedd a'u gosod oddi fewn amserlen gyflawni - o gam i gam.

Fel rhag-ddigwyddiad i ddechrau'r datblygiadau cynhaliwyd achlysur ym mis Ionawr 2015 pan ymwelodd y Prif Weinidog Carwyn Jones â'r pentref a chyhoeddi bod prosiect i ailddatblygu'r cyfleusterau morol wedi'i ganiatáu. Dywedodd " Bydd y cynllun yn gweld yr harbwr, a adeiladwyd 185 mlynedd yn ôl, yn cael ei atgyweirio i wella mynediad ond hefyd i sicrhau ei ddichonoldeb tymor hir"

Cam 1

Yn dilyn ymweliad y Prif Weinidog a'r cyhoeddiad cwblhawyd y rhan helaethaf o Cam 1 yn ystod 2015, yn cynnwys pontynau ymwelwyr ac angorfeydd, llithrfa allanol a racio badau sych. Mae hyn eisoes wedi bod o fudd i ddefnyddwyr hamdden yr harbwr trwy ddatrys anawsterau llanw trwy adeiladu llithrfa newydd, sydd nawr yn caniatáu lansio gwaeth beth yw cyflwr y llanw. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i wasanaethau'r harbwr ac yn cefnogi bwriad Croeso Cymru i gynyddu'r defnydd o'n dyfroedd arfordirol at bwrpas hamdden.

Mae nifer o elfennau wedi cyfrannu at gynnydd dramatig mewn amserau mynediad i'r dŵr i ddefnyddwyr badau. Yn ychwanegol maent wedi galluogi'r harbwr i ymestyn ei wasanaeth badau o 200 i 300+ o fadau gydag uchelgais gyfan i ymestyn y cyfnod gwasanaeth tymhorol a'r atyniadau ymwelwyr. Mae'r elfennau hyn yn cynnwys:

1. Pontŵn Ymwelwyr Harbwr Allanol

   Mae yna alw cynyddol am angorfeydd ymwelwyr ar gyfer badau sy'n croesi Môr Hafren, o'r dynesfeydd mwyaf deheuol yng Nghernyw/Dyfnaint ac Iwerddon. Amcan y Comisiynwyr felly oedd sefydlu cyfleuster pontŵn angori, gwaeth beth yw cyflwr y llanw, sy'n cynnig cyfleuster sylweddol i'r dalwyr angorfeydd presennol, a'r badau ymweld i angori yn ymyl.

   Mae cyfleuster o'r fath, am y tro cyntaf, wedi galluogi perchnogion badau lleol ac ymwelwyr i gael angorfa llanw pob cyflwr oddi fewn i ardal Bae Caerfyrddin, a does dim ond llond dwrn o gyfleusterau o'r fath yng Nghymru.

2. Angorfeydd Siglo Ymwelwyr Harbwr Allanol / Angorfeydd Llanw Hwyr

   Mae'r Harbwr wedi gosod 10 o angorfeydd siglo i ymwelwyr yn 2015 ac wedi cynyddu'r rhain, yn 2016 i 15 a 2017 i 20, wrth i'r galw gynyddu. Gellir trefnu eu cadw ymlaen llaw hyd at gyfnod o bythefnos er mwyn i deuluoedd sydd ar eu gwyliau gadw eu bad yn barhaol ar y dŵr yn ystod eu harhosiad.

   Mae'r cyfleuster wedi creu agwedd mwy ymlaciol ar gyfer badau ymwelwyr am nad oes angen iddyn nhw bryderu am y llanw, gan ganiatáu iddyn nhw archwilio'r safleoedd tir mawr ar hyd Sir Benfro yn y bore pe bai'r rhagolygon tywydd yn addo gwella yn ystod y prynhawn.

3. Llithrfa Harbwr Allanol

   Wedi'i leoli ar hen safle J&T ym mhen dwyreiniol yr Harbwr, dyma'r unig gyfleuster o'i fath sy'n rhoi mynediad i Fae Caerfyrddin, gan roi mynediad didramgwydd i'r llinell ddŵr, felly, yn cynyddu mynediad i'r dŵr o'r 2 awr bresennol naill ochr i'r llanw i ddyblu'r cyfleoedd i 4 awr sy'n golygu mai dim ond am ychydig oriau bob dydd y mae'r mynediad i'r dŵr wedi'i gyfyngu.

   Mae'r cyfleuster hwn wedi galluogi defnyddwyr harbwr a badau ymwelwyr i gynllunio eu gwyliau oddi amgylch anghenion teuluol a hynny nid dim ond pan mae'r llanw ar gael. Felly, mae'n bosib marchnata Saundersfoot fel lleoliad llawer mwy dymunol i aros.

4. Racio Badau Sych

   Buddiant y cynllun hwn yw bod y bad dim ond ar y dŵr pan fod angen gan alluogi'r Harbwr i gynyddu ei argaeledd i o leiaf 80 o ddefnyddwyr badau ychwanegol gyda'r buddiant pellach i'r perchennog o leihau'r angen i ddefnyddio paent gwrth-drochi a lleihau treulio'n sylweddol.

   Gall badau gael eu lansio a'u tywys gan dîm yr Harbwr gan leihau cymhlethdodau bod yn berchen ar fad a chreu profiad llawer mwy pleserus i'r teulu cyfan.

   Mae cyfleuster o'r fath, am y tro cyntaf, wedi galluogi defnyddwyr Harbwr ac ymwelwyr gwyliau i Sir Benfro gael mynediad i Fae Caerfyrddin trwy gynllun storio sy'n cynnal ansawdd eu llong.

5. Pontŵn Glanio Harbwr Mewnol

Mae'r Harbwr wedi gosod mynediad ramp i adeiledd pontŵn sy'n cynnig mynediad diogel gan alluogi'r personau llai abl i gael mynediad i longau pleser a'r llongau teithiau ardderchog sy'n gweithredu o'r Harbwr.

6. Dec yr Harbwr

Trwy ddecio dros yr hen lifddor, heb amharu ar ei weithrediad, mae'r harbwr wedi creu llecyn agored cymunedol gwerthfawr lle gellir cynnal achlysuron awyr agored gwaeth beth yw cyflwr y tywydd, gan ddarparu lleoliad i gefnogi'r gyfres o raglenni ardderchog cyfredol y tu hwnt i'r tymor a drefnir gan Siambr Dwristiaeth Saundersfoot.

Mae hwn yn lleoliad delfrydol i'w fynychu i eistedd ac ymlacio neu fwynhau picnic teuluol, ynghyd â rhaglen o achlysuron i'w datblygu yn creu dyddiadur o ddigwyddiadau llawn awyrgylch boed gerddoriaeth/diwylliant/bwyd a chelfyddydau.

Cam 2

Mae Cam 2 ar y gweill ar hyn o bryd a bydd yn darparu'r Ganolfan Rhagoriaeth Forol (CRhF) lle lleolir Canolfan Arfordirol Ryngwladol Cymru a fydd yn gweithredu fel porth marchnata twristiaeth forol i holl gyfleusterau arfordirol Cymru gyda chynllun marchnata dros y DG gyfan.

Bydd y buddsoddiad hefyd yn darparu tri atyniad ymwelwyr thematig wedi'u dolenni, un ohonyn nhw fydd y Ganolfan Storm oddi fewn i'r GRhF, un arall fydd y Ganolfan Dreftadaeth a Chelfyddydau fel rhan o ddatblygiad Sgwâr y Cefnfor, ac ychwanegiad i'r Dec Achlysuron sef y Ganolfan Sgwner Arfordirol. Yn ychwanegol bydd cyfleusterau manwerthu ac ymwelwyr Sgwâr y Cefnfor ar eu hennill o ganlyniad i amgylchedd awyr agored gyda tho arloesol yn rhoi ased blwyddyn gyfan i'r pentref wedi'i diogelu rhag y tywydd.

Mae darparu cyfleoedd i fusnesau newydd a chreu swyddi yn sylfaenol i'r buddsoddiad. Fe ddaw'r oddeutu 100 o swyddi newydd a ragwelir trwy estyniad y Comisiynwyr o'u hestyniad eu hunain o wasanaethau harbwr a hyd yn oed yn bwysicach fyth trwy'r ddarpariaeth o gyfleoedd gweithgareddau, gweithdai a manwerthu i ehangu a chreu busnesau gan eraill. Bydd y rhain yn canolbwyntio'n benodol (er nid yn gyfan gwbl) ar allfeydd manwerthu ( gan gynyddu'r ôl-troed manwerthu yn Saundersfoot ymron 50%) Sgwâr y Cefnfor ac yn y Ganolfan Rhagoriaeth Forol lle bydd y gweithdai morol a gwasanaethau gweithgareddau. Bydd y datblygiad Sgwner a rhan o Sgwâr y Cefnfor hefyd yn darparu cyfleoedd i fusnesau a gweithgareddau yn y sector celfyddydau, diwylliant a threftadaeth - mae gwerth y rheiny i economi Sir Benfro a chefn gwlad Gorllewin Cymru yn cael ei weld yn cynyddu mewn pwysigrwydd gan Lywodraeth Cymru.

Bydd agwedd y Comisiynwyr tuag at ddenu, meithrin a datblygu partneriaethau go iawn yn cynnwys cymorth i fusnesau newydd ar fin-dechrau, prydlesau hyblyg a marchnata cyrchfanol cysylltiedig fydd yn fanteisiol i bawb gan gynnwys busnesau y tu allan i'r Harbwr, rhywle arall yn Saundersfoot.

Cam 3

Bydd y canlyniad terfynol yn creu harbwr wedi'i lwyr drawsnewid - proffidiol, mewn defnydd cyson, yn denu defnyddwyr ac ymwelwyr  newydd ac o fathau gwahanol i'r economi lleol a phan fydd wedi'i gwblhau yn creu dros 90 o swyddi newydd yn uniongyrchol  a thrwy'r busnesau bychain newydd a busnesau bychain fydd yn ehangu trwy wneud defnydd o Ganolfan Arfordirol Ryngwladol Cymru yn Saundersfoot.

Mae gwybodaeth bellach a manylion y datblygiadau ar gael ar y wefan https://www.saundersfootharbour.co.uk/harbour-developments/.  Mae delweddau o'r datblygiad arfaethedig ynghlwm.

Porthladd Ymddiriedolaeth Saundersfoot Datblygiad Cam 2



Porthladd Ymddiriedolaeth Saundersfoot Datblygiad Cam 2

Canolfan Rhagoriaeth Forol.



Porthladd Ymddiriedolaeth Saundersfoot Datblygiad Cam 2

Dec Achlysuron Cenedlaethol a Sgwner Arfordirol Treftadaeth



Sgwâr y Cefnfor

